**Lesley Griffiths AS/MS**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/4388/20

Cadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a’r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig,
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

22 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick a Mike

**Bil Amaethyddiaeth y DU – Trydydd Darlleniad a gwelliannau “ping pong”**

Ar 28 Medi, gosodais y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Amaethyddiaeth. Rhoddodd y Senedd ei gydsyniad i’r Bil y diwrnod canlynol. Fodd bynnag, yn ystod y Trydydd Darlleniad yn Nhŷ’r Arglwyddi, cyflwynodd Llywodraeth y DU nifer o welliannau technegol sydd bellach yn rhan o Ddeddf Amaethyddiaeth 2020.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU hefyd ddarpariaeth newydd sy’n ymwneud ag adroddiadau ar gytundebau masnach rydd wrth ystyried y gwelliannau yn y Senedd (“ping pong”), sydd bellach yn rhan o’r Ddeddf. Ceir crynodeb o’r darpariaethau hyn isod:

**<u>Adran 17 (Parhau â rhaglenni’r UE: pŵer i ddarparu cymorth ariannol)</u>**

Mae adran 17 yn caniatáu i “awdurdod cenedlaethol priodol” roi cymorth ariannol i restr benodol o bobl/unigolion. Mae’r gwelliant a wnaed yn y Trydydd Darlleniad yn ymestyn y diffiniad o “awdurdod priodol” i gynnwys Gweinidogion yr Alban mewn achosion o gytundeb neu raglenni gweithredol a gymeradwywyd o ran yr Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Adran 18 (deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir)**

Mae adran 18 yn darparu rhestr o'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig, sefydliadau cynhyrchwyr ffrwythau a llysiau a gwenynyddiaeth sydd ag effaith uniongyrchol o dan y Cytundeb Ymadael mewn perthynas â rhaglenni a gweithgareddau sy'n bodoli eisoes ac a fydd yn dod yn ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir er mwyn cael effaith at ddibenion eraill.

Mae'r gwelliant hwn yn cynnwys categori newydd o ddeddfwriaeth yr UE yn y rhestr. Mae'r categori newydd o ddeddfwriaeth yn gysylltiedig â mesurau hybu, ac mae'r gwelliannau'n cael effaith ledled y DU.

**Adran 42 (Adroddiadau sy'n ymwneud â chytundebau masnach rydd)**

Mae'r ddarpariaeth newydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol osod gerbron y Senedd adroddiad sy'n esbonio a yw'r mesurau, neu i ba raddau y mae'r mesurau yn gymwys i fasnach cynnyrch amaethyddol penodol mewn cytundebau masnach rydd penodol yn gyson â chynnal lefelau gwarchodaeth statudol y DU mewn perthynas â bywyd neu iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu iechyd, lles anifeiliaid a'r amgylchedd. Y diffiniad o "lefelau gwarchodaeth statudol y DU" yw'r lefelau gwarchodaeth sydd, ar adeg llunio'r adroddiad, yn cael eu darparu ar eu cyfer gan ddeddfwriaeth neu oddi tani sy'n cael effaith yn y Deyrnas Unedig neu unrhyw ran ohoni.

Ni chaniateir i gytundeb masnach rydd sy'n cynnwys mesurau sy'n gymwys i fasnach cynnyrch amaethyddol gael ei osod gerbron y Senedd o dan Ran 2 o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010 oni bai bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gosod adroddiad o'r fath yn gyntaf. Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol yn gosod yr adroddiad gerbron y Senedd rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd ddarparu copi i bersonau penodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

**Adran 56 (rhychwant)**

Mae'r gwelliant a wnaed i adran 56 yn ganlyniadol ar gynnwys Gweinidogion yr Alban yn adran 17 (manylion uchod). Mae'r gwelliant hwn yn darparu bod adran 17 yn ymestyn i Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

**Atodlen 5 (darpariaeth o ran Cymru: Gwenynyddiaeth)**

Mae'r gwelliant yn cymhwyso'r weithdrefn penderfyniad negyddol i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 5 o Atodlen 5 (gwenynyddiaeth), oni bai bod adran 50(5) yn gymwys. Os yw adran 50(5) yn gymwys, byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

**Atodlen 6 (darpariaeth o ran Gogledd Iwerddon: Gwenynyddiaeth)**

Mae'r gwelliant yn cymhwyso'r weithdrefn penderfyniad negyddol i unrhyw reoliadau a wneir o dan baragraff 6, oni bai bod adran 50(5) yn gymwys. Os yw adran 50(5) yn gymwys, byddai'r rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

Mae'r Bil bellach wedi derbyn Cydsyniad Brenhinol ond roeddwn am dynnu'r gwelliannau hyn at sylw'r Aelodau.

Cofion

**Lesley Griffiths AS/MS**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs